



Mehefin 2017

Annwyl gydweithiwr

Arholiadau'r haf 2017

Wrth i dymor yr arholiadau ddirwyn i ben, ysgrifennaf atoch ynglŷn â chymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch yr haf hwn. Mae'r llythyr hwn yn amlinellu ein dull dyfarnu rheoleiddiol, newidiadau i'r cymwysterau a newidiadau i'r gwasanaeth ymholiadau ar ôl y canlyniadau.

Yr haf hwn, bydd cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch newydd, yn ogystal â'r Fagloriaeth Cymru newydd ar gyfer CA4 a Lefel Uwch, yn cael eu dyfarnu am y tro cyntaf. Bydd gennym ddiddordeb mawr yn y modd y caiff y cymwysterau hyn eu dyfarnu yng Nghymru, a byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod y safon berthnasol yn cael ei chynnal yn briodol.

Mae cymwysterau nad ydynt wedi'u diwygio eto yn parhau i gael eu dyfarnu ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r rheoleiddwyr cymwysterau yn y gwledydd hynny (Ofqual yn Lloegr a CCEA yng Ngogledd Iwerddon) fel rhan o ddull rheoleiddio ar sail tair gwlad presennol.

Dyfarnu yn ystod haf 2017

Ceir dull cadarn o sicrhau bod canlyniadau'n parhau'n sefydlog pan gaiff cymwysterau newydd eu cyflwyno, a elwir yn 'ganlyniadau cymaradwy'. Prif nod y dull hwn yw sicrhau nad oes mantais annheg gan fyfyrwyr eleni ac nad ydynt ychwaith dan anfantais annheg am mai nhw yw'r cyntaf i astudio ar gyfer y cymwysterau newydd. Mae'r dull hwn yn gallu gwneud yn iawn mewn sefyllfaoedd lle

gellir cael gostyngiad bach mewn perfformiad pan gaiff cymwysterau newydd eu cyflwyno. Dyma'r dull a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus yr haf diwethaf wrth ddyfarnu'r cymwysterau Safon UG newydd.

Yn ogystal â mabwysiadu'r dull canlyniadau cymaradwy, bydd CBAC yn gwneud rhagor o waith dadansoddi ystadegol ac yn trefnu i uwch arholwyr gynnal adolygiadau mwy helaeth a dwys o waith ymgeiswyr ar ffiniau gradd allweddol yn ystod y broses ddyfarnu.

Mae'r dull canlyniadau cymaradwy yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y cohort cyfan, a bydd yn sicrhau y caiff amrywioldeb yn y canlyniadau ar lefel genedlaethol ei gyfyngu. Fodd bynnag, pan fydd cymhwyster yn newid, gellir cael mwy o amrywioldeb nag arfer o flwyddyn i flwyddyn yn y canlyniadau ar gyfer ysgolion a cholegau unigol, oherwydd y gallent fod wedi defnyddio dulliau gwahanol o ran cyflwyno'r cymhwyster newydd.

Byddwn yn cyhoeddi dogfennau technegol ar ein gwefan, o'r enw 'dogfennau cyfnewid data', sy'n nodi sut y bydd y dull canlyniadau cymaradwy yn cael ei gymhwyso at y broses o ddyfarnu'r cymwysterau newydd hyn.

Cymwysterau TGAU newydd

Am y tro cyntaf, mae myfyrwyr yng Nghymru yn astudio ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig mewn Saesneg Iaith, Cymraeg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg a Llenyddiaeth Gymraeg. Yn ogystal, dyma'r ail gyfle i gofrestru myfyrwyr ar gyfer y cymwysterau mathemateg diwygiedig; TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg – Rhifedd. Er nad yw'r cymwysterau TGAU Gwyddoniaeth diwygiedig yn cael eu dyfarnu tan yr haf nesaf, bydd myfyrwyr yn gallu astudio rhai o'r unedau newydd yr haf hwn. Rydym wedi lansio ymgyrch yn ddiweddar i dynnu sylw at y newidiadau i gymwysterau yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar ein [gwefan](#).

Cymwysterau Safon UG a Safon Uwch newydd

Gellir astudio 14 o bynciau Safon Uwch diwygiedig am y tro cyntaf yr haf hwn: Celf a Dylunio, Bioleg, Busnes, Cemeg, Cyfrifiadureg, Economeg, Saesneg Iaith, Saesneg Iaith a Llenyddiaeth, Llenyddiaeth Saesneg, Hanes, Ffiseg, Seicoleg, Cymdeithaseg a Chymraeg (Iaith Gyntaf). Yn ogystal, gellir astudio naw pwnc Safon UG diwygiedig am y tro cyntaf yr haf hwn: Drama, Ffrangeg, Daeryddiaeth, Almaeneg, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Astudiaethau Crefyddol, Sbaeneg a Chymraeg (Ail Iaith).

Pynciau TGAU, Safon UG a Safon Uwch etifeddol

Ar gyfer y pynciau TGAU a Safon Uwch hynny y bydd cymwysterau diwygiedig yn cael eu dyfarnu ar eu cyfer yr haf hwn, hwn fydd y tro olaf y gall myfyrwyr ail-sefyll yr

arholiadau ar gyfer yr hen gymwysterau. Rydym wedi cyhoeddi manylion y trefniadau ar gyfer [ail-sefyll](#) pob un o'r hen gymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch.

Cofrestriadau

Ar 15 Mehefin 2017, cyhoeddodd Ofqual ystadegau cofrestriadau dros dro ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r data hwn yn rhoi awgrym cynnar i ni o newidiadau mewn patrymau cofrestru, sy'n ddefnyddiol wrth ddehongli canlyniadau'r haf. Yr haf hwn, mae rhywfaint o newidiadau sylweddol i'w gweld i'r patrymau cofrestru yng Nghymru; yn arbennig, mae nifer y cofrestriadau Blwyddyn 10 ar gyfer TGAU Saesneg Iaith a'r ddwy TGAU Mathemateg wedi cynyddu'n sylweddol. Ar y cyfan, mae cofrestriadau Blwyddyn 10 yn cyfrif am 18% o'r cofrestriadau yr haf hwn. Gallai'r newid hwn yn y cohort gael effaith ar ganlyniadau'r haf, felly bydd angen bod yn ofalus wrth ddehongli canlyniadau'r haf a'u cymharu â rheiny'r blynyddoedd blaenorol. Bydd y broses ddyfarnu ond yn ystyried perfformiad myfyrwyr Blwyddyn 11, felly ni fydd y newid hwn yn natur y cohort yn effeithio ar y broses o gynnal safonau.

Yn ein barn ni, mae'n bwysig rhoi eglurder ynghylch y ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar gymwysterau'r haf hwn. Felly, dros y pythefnos nesaf, byddwn yn cyhoeddi cyfres o erthyglau sy'n canolbwyntio ar y prif newidiadau i'r cymwysterau newydd a'r hyn y gallent ei olygu i ganlyniadau ym mis Awst, ynghyd ag ychydig o erthyglau â thema sy'n bwriadu gwella dealltwriaeth o'r broses ddyfarnu.

Newidiadau i'r gwasanaeth adolygu ar ôl y canlyniadau

Rydym yn disgwyl y bydd y marciau a roddir i fyfyrwyr yn gywir y tro cyntaf; fodd bynnag, os bydd ysgol neu goleg o'r farn y gwnaed camgymeriad wrth farcio asesiad, byddwch yn gallu gwneud cais i adolygu'r marc. Rydym yn disgwyl i wallau marcio gael eu cywiro pan ddeuir o hyd iddynt, ond nid ydym yn disgwyl i farc priodol gael ei newid am farc arall.

Gwnaethom newidiadau i'r ffordd y caiff gwaith marcio a chymedroli ei adolygu ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch y llynedd. Yn dilyn cynllun peilot, bydd Ofqual yn cyhoeddi'r trefniadau a fydd ar waith ar gyfer apelio yn Lloegr yr haf hwn. Er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch ar gyfer myfyrwyr yng Nghymru, rydym yn bwriadu cyd-fynd â'r newidiadau i'r prosesau hyn. Byddwn yn ysgrifennu atoch cyn diwedd y tymor i roi rhagor o fanylion.

Rhagweld canlyniadau

Gwyddwn fod rhai sefydliadau masnachol yn marchnata adnoddau asesu i helpu i ragweld graddau tebygol myfyrwyr a fydd yn sefyll arholiadau ar gyfer y cymwysterau newydd yr haf hwn. Nid yw Cymwysterau Cymru na CBAC yn ymwneud o gwbl â darparu profion o'r fath, ac felly ni allwn wneud sylwadau ar eu cywirdeb

na'u dibynadwyedd. Dylai unrhyw athrawon sy'n defnyddio'r cynhyrchion hyn arfer eu barn a'u profiad proffesiynol wrth ddehongli'r canlyniadau a geir.

Rhyddhau canlyniadau

Hoffem atgoffa ysgolion a cholegau bod canlyniadau'n gyfrinacholtan y diwrnodau canlyniadau swyddogol (17 Awst ar gyfer TAG a 24 Awst ar gyfer TGAU), ac mae'n rhaid peidio â'u rhannu gydag unrhyw unigolyn neu sefydliad y tu allan i'ch ysgol neu'ch coleg.

Dweud eich dweud!

Fel rhan o'n gwaith o fonitro cyfres arholiadau'r haf, rydym wedi bod yn cynnal arolwg ar-lein i roi cyfle i fyfyrwyr, athrawon a darlithwyr roi adborth ar arholiadau. Mae 600 o ymatebion eisoes wedi dod i law, ond rydym yn croesawu mwy, felly anogwch fyfyrwyr a staff i gwblhau'r arolygon os nad ydynt wedi gwneud hynny'n barod. Dyddiad cau yr [arolwg](#) yw Dydd Gwener, 15 Gorffennaf.

Gobeithio y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i chi. Rydym yn rhoi diweddariadau rheolaidd i ysgolion a cholegau ar gymwysterau TGAU, Safon Uwch a chymwysterau eraill a reoleiddir gennym drwy ein cylchlythyr 'Y Llechen'. Gallwch gofrestru i gael hwn drwy e-bostio cyfathrebu@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir



Philip Blaker

Prif Weithredwr